

Cyngor Sir Caerfyrddin
Strategaeth Technoleg Ddigidol 2018-2021

"Ymagwedd Cwmwl yn Gyntaf"



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales



Yr Arweinydd

"Mae'r rhyngwyd yn rhan sylweddol o'n bywydau y dyddiau hyn ac mae'n cael effaith gynyddol ar wasanaethau cyhoeddus hefyd. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn benderfynol o groesawu'r chwyldro digidol a sicrhau ein bod mewn sefyllfa i fanteisio'n llawn ar y newidiadau mawr yn sgil technoleg newydd. Mae ein Strategaeth Technoleg Ddigidol newydd yn cyflwyno ymagwedd newydd a fydd yn ategu bron popeth a wnawn fel Cyngor.

Disgrifiwyd "Trawsnewid Digidol" yn newid sy'n gysylltiedig â rhoi technoleg ddigidol ar waith ym mhob agwedd ar gymdeithas. Mae angen i Gyngor Sir Caerfyrddin fanteisio ar blatfformau digidol newydd fel y gall ein trigolion a'n busnesau gael gwybodaeth neu gwblhau eu hymwneud â'r Awdurdod Lleol mewn ffyrdd sy'n gyfleus iddynt hwy, gan arbed arian cyhoeddus hefyd. Mae'r ddogfen bwysig hon yn amlinellu sut y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ategu ac yn darparu'r holl elfennau sy'n angenrheidiol ar gyfer trawsnewid digidol".

*Cyngh. Emlyn Dole,
Arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin*



Y Prif Weithredwr

"Croeso i Strategaeth Technoleg Ddigidol 2018-2021 Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno sut y byddwn yn ategu ein hymagwedd uchelgeisiol at drawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau i drigolion Sir Gaerfyrddin.

Mae heriau anodd o'n blaenau o hyd a hynny yn ystod cyfnod o gynni parhaus ac mae'n hanfodol inni wneud y defnydd gorau o'r datblygiadau arloesol digidol diweddaraf un i sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn ariannol gynaliadwy yn y dyfodol.

Bydd gwell seilwaith digidol sy'n manteisio ar y technolegau diweddaraf yn darparu'r sylfeini sy'n caniatáu inni weithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon a thrawsnewid yr economi leol gan sicrhau ei bod yn gallu cystadlu'n fyd-eang.

Bydd y Strategaeth Technoleg Ddigidol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn a byddwn yn nodi ein cynnydd o ran cyflawni ein prosiectau allweddol yn ein Hadroddiad Blynyddol".

*Mark James,
Prif Weithredwr Cyngor Sir Gaerfyrddin*



Ein Gweledigaeth


'Sir Gaerfyrddin sydd wedi'i galluogi'n ddigidol'

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth fentrus hon:

- Byddwn yn adeiladu seilwaith technoleg mwy hyblyg, ystwyth ac integredig.
- Byddwn yn mabwysiadu plattform digidol a modern sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sydd ar gael yn hwylus iawn, wrth wraidd ein technoleg.
- Byddwn yn manteisio ar amgylcheddau cwmwl i ddarparu technoleg unrhyw le ac unrhyw bryd ar gyfer y sefydliad.
- Byddwn yn gwneud gwelliannau sylweddol i gynhyrchiant drwy fanteisio ar ddyfeisiau a thechnoleg newydd ar gyfer ein holl Gynghorwyr a staff.
- Byddwn yn datgomisiynu ein seilwaith ar y safle a chyflwyno technoleg cwmwl rithwir lle bo modd.
- Byddwn yn dilyn polisi i gydgyfeirio ac uno ein plattformau cyfathrebu i greu un system.
- Byddwn yn ceisio casglu a dadansoddi data a chael gwerth ohono er mwyn hwyluso strategaeth sefydliadol, gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau.
- Byddwn yn sicrhau mai cysylltedd digidol a lled band yw sylfaen ein stac technoleg, ar gyfer y sefydliad, aelodau etholedig, dinasyddion a busnesau.
- Byddwn yn hwyluso ac yn ategu cydweithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol drwy ddefnyddio technoleg yn ddeallus.
- Byddwn yn gwerthfawrogi, yn cydnabod ac yn buddsoddi yn y bobl a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cyflawni nodau'r strategaeth hon.

Beth yw Strategaeth Technoleg Ddigidol?

Mae'r Strategaeth Technoleg Ddigidol yn cyflwyno blaenoriaethau a dyheadau'r Awdurdod o ran technoleg ddigidol yn ystod y 3 blynedd nesaf. Ei diben yw nodi'r technolegau a'r mentrau allweddol fydd yn hwyluso ac yn ategu gweledigaeth Strategaeth Trawsnewid Digidol bresennol a throsfwaol y sefydliad a'r modd y caiff ei rhoi ar waith. Cynulleidfwr strategaeth hon yw arweinwyr y sefydliad, aelodau etholedig, ein cwsmeriaid a'n staff.



Byddwn yn mabwysiadu Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ddylunio a gweithredu ein technolegau digidol newydd i'n helpu i gyflawni Amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio technolegau presennol a datblygol priodol i hwyluso ac ategu'r gwaith o drawsnewid a gwella gwasanaethau a gwneud arbedion effeithlonrwydd.



Mae'r Strategaeth Technoleg Ddigidol hon yn cydnabod bod modd darparu technoleg integredig, ystywyth a hyblyg i'r Cyngor a'i drigolion dim ond os ydym yn mabwysiadu'r un modelau arloesol â rhai o'r cwmnïau mwyaf blaengar ac effeithlon ar draws y byd.



Yr Egwyddorion Cyffredinol

I gyflawni'r uchelgeisiau yn y strategaeth hon byddwn yn glynu at yr egwyddorion cyffredinol canlynol:



Mae ysgogwyr sylweddol a chymhellol ar gyfer mabwysiadu **YMAGWEDD CWMWL YN GYNTAF** tuag at seilwaith a thechnolegau. Byddwn yn mynd ar drywydd yr atebion cwmwl hyn lle bo modd.



Mae gennym amrywiaeth o hen dechnolegau cymhleth ar hyn o bryd. Mae cefnogi a chynnal y rhain yn defnyddio llawer o adnoddau ac yn cyfyngu'r sefydliad. Byddwn yn ceisio **RHESYMOLI A CHYFNERTHU** ar bob cyfle.



Byddwn yn manteisio ar arbedion effeithlonrwydd a buddion posibl drwy ymchwilio i **DECHNOLEGAU DATBLYGOL A NEWYDD**, mynd ar drywydd y technolegau hyn a'u mabwysiadu. Lle bydd modd ychwanegu gwerth sylweddol, byddwn yn mynd ar drywydd y dechnoleg honno.



Bydd **PARHAD BUSNES AC ADFER MEWN ARGYFWNG** yn flaenoriaeth allweddol ym mhob un o'r mentrau a nodir yn y ddogfen hon. Byddwn yn sicrhau bod cadernid a dibynadwyedd yn ganolog i bopeth a wnawn.




Byddwn yn ymdrechu i **ROI'R HOLL NEWIDIADAU AR WAITH** yn drefnus ac mewn modd a reolir. Byddwn yn ymgynghori ac yn cyfathrebu'n fynych â'r holl randdeiliaid perthnasol.



Lle bydd cyfleoedd i ategu ac ychwanegu gwerth drwy **GYDWEITHIO**, fe wnawn hynny, yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, ledled y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Carmarthenshire's Digital Estate

Cyfathrebu (Llais a Data)



Canolfannau Data

Canolfannau Data - **2 yn ogystal â safle**

Adfer mewn Argyfwng

Gweinyddion Corfforaethol - **465 (405 gweinydd rhithwir, 60 gweinydd ffisegol)**

Gweinyddion Ysgolion - **45 wedi eu rhithwirio'n ganolog, 54 mewn ysgolion uwchradd, 43 mewn ysgolion cynradd**

Cyfanswm lle storio - **250TB** sy'n cynnwys

- **60TB data wrth gefn**
- **143TB data VMware (sy'n cynnwys gweinyddion C - 2TB)**
- **6TB Solaris Unix**
- **4TB Clystyrau SQL**
- **37TB o le rhydd ar gyfer twf**

Cyfanswm nifer y tapiau i gefnogi blwyddyn o ddata wrth gefn = **1800 (mae pob tâp yn dal 800Gb)**



Defnyddwyr

Staff corfforaethol- **3500, ynghyd ag 81 o**

Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig

Adeiladau/safleoedd corfforaethol a gefnogir: - **137**

Cyfrifon partner (GIG, partneriaid tai ac ati) - **440**

Staff ysgolion - **3,600**

Disgyblion - **14,000**

Gliniaduron - **1826**

Cyfrifiaduron personol - **1916**

Llechi - **540 iPad's**

Ffonau clyfar - **426**

Ffonau Desg - **3800**

Ffonau symudol (heb fod yn rhai clyfar): - **1148**

Gliniaduron a Chyfrifiaduron Ysgolion -

Cynradd 8500, Uwchradd 5254

Llechi - 4000

Yr adnoddau

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi llawer o adnoddau i sicrhau bod gennym seilwaith cadarn a chryf i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion ledled y sir. Yn ogystal â chyllideb refeniw barhaus y Gwasanaethau TGCh, byddwn hefyd yn buddsoddi'r canlynol yn ystod y 3 blynedd nesaf:

Cyfalaf

- £692K i roi'r dechnoleg briodol i staff er mwyn iddynt weithio mewn modd ystwyth.
- £767k i wneud gwelliannau i Rwydweithiau Asgwrn Cefn y Sir a Thechnoleg Cwmwl.
- Buddsoddi £130k mewn darparu Diogelwch TGCh i fynd i'r afael â bygythiadau cynyddol a datblygol.
- £100k ar ein Rhwydwaith Ardal Storio.
- £350k ar ein system Virtual Unix newydd, sy'n lletya sawl system ariannol graidd.
- £100k ar ein technolegau a'n galluoedd o ran Adfer mewn Argyfwng.
- £400k ar brosiectau Trawsnewid Digidol penodol.

Pobl a Sgiliau

Byddwn yn buddsoddi £112K yn ystod y 3 blynedd nesaf mewn cadw a gwella sgiliau staff TGCh, er mwyn iddynt allu symud ymlaen â'r cynllun uchelgeisiol hwn i fabwysiadu technoleg y dyfodol.

Heriau

Bydd y model traddodiadol o gynnal ein seilwaith drwy wariant cyfalaf cylchol yn dod yn llai cyffredin dros y blynyddoedd nesaf. Bydd symud i fodolau TGCh "Fel Gwasanaeth" mwy seiliedig ar Gwmwl yn golygu bod angen newid i wariant refeniw uwch. Bydd y Gwasanaethau TGCh yn gweithio'n agos gydag Uwch-reolwyr a chydweithwyr Cyllid fesul achos i sicrhau bod achosion busnes cadarn yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r newid hwn ac i sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer y sefydliad.

Arbedion Effeithlonrwydd

Bydd llwyddo i weithredu prosiectau allweddol fel rhan o'r strategaeth hon dros y tair blynedd nesaf yn sicrhau arbedion ariannol sylweddol i'r Awdurdod. Bydd y prosiectau hefyd yn sicrhau gwell gwytnwch ac yn rhoi seilwaith cadarn a chynaliadwy i'r awdurdod ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt.

Mae'r strategaeth hon - 'cwmwl yn gyntaf' yn hwyluso ac yn cyd-fynd ag arbedion effeithlonrwydd gwerth **£2.5 miliwn** a nodwyd drwy'r polisi Gweithio Ystwyth, ac yn bwysicaf oll, mae'n rhoi sail iddynt. Mae gan y strategaeth hon y potensial i hwyluso gwaith o ran osgoi costau cyfalaf sylweddol drwy ddatgomisiynu'r asedau corfforol a'r seilwaith. Bydd yr arbedion refeniw canlynol yn cael eu cyflawni:

- £100k o arbedion refeniw drwy ddiweddarau a symud cylchedau rhwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus i ddefnyddio'r technolegau diweddaraf.
- £100k o arbedion refeniw drwy wella ein gallu rhithwir o ran y ffonau.
- £99k o arbedion refeniw drwy symud llwythi gwaith i dechnolegau Office 365 sydd wedi'u lleoli ar gwmwl.
- £41k o arbedion refeniw o ran pweru ac awyru o ganlyniad i ddatgomisiynu ein Canolfan Ddata yn Neuadd y Sir yn y dyfodol.
- £27k o arbedion refeniw drwy ailgynllunio seilwaith rhwydwaith meingefn ein sir.
- £30k o arbedion refeniw drwy symud i amgylchedd dysgu digidol Llywodraeth Cymru sydd wedi'i lleoli ar gwmwl. (HWB)

'Ymagwedd Cwmwl yn Gyntaf'

“*Wrth gaffael gwasanaethau newydd neu bresennol, dylai sefydliadau sector cyhoeddus ystyried a gwerthuso'n llawn atebion cwmwl posibl yn gyntaf cyn ystyried unrhyw opsiwn arall. Mae'r ymagwedd hon yn orfodol ar gyfer llywodraeth ganolog ac mae'n cael ei hargymell yn gryf i'r sector cyhoeddus ehangach*”

- Polisi Cwmwl yn Gyntaf Llywodraeth y DU, 2017.

“*Mae'r datblygiadau cyflym a'r defnydd cynyddol o systemau cwmwl i ddarparu gwasanaethau TGCh allweddol fel e-bost a storio data yn cynnig posibilïadau pellach o ran effeithiolrwydd ac arbed arian. Mae cydweithio i wireddu'r manteision hyn a chreu unrhyw gydwasanaethau cymorth newydd sy'n seiliedig ar dechnolegau cwmwl yn debygol o arwain at arbedion maint mwy*”

Papur Gwyn Llywodraeth Cymru,
Diwygio Llywodraeth Leol, 2017.



Beth mae'n ei olygu

- Mae defnyddio atebion cwmwl yn gyflym i ddarparu gwasanaethau TGCh allweddol megis e-bost, offer cynhyrchiant, cymwysiadau a storio data yn cynnig posibiliadau sylweddol o ran effeithlonrwydd, arbed arian a chynhyrchiant.
- Lleihau ymarferion adnewyddu a newid seilwaith ffisegol sy'n gostus, yn gylchol ac yn wastraffus. Dylai hyn arwain at lai o wariant seilwaith cyfalaf, gan symud i wariant gweithredol mwy seiliedig ar refeniw wrth inni newid yn fodel "fel gwasanaeth" ar gyfer caledwedd, meddalwedd a gwasanaethau.
- Effaith amgylcheddol - wrth i anghenion cwmwl amrywio, mae capasiti gweinydd yn cynyddu ac yn lleihau i addasu. Rydym yn defnyddio'r ynni sydd ei angen arnom yn unig ac nid ydym yn gadael ôl troed carbon mawr.

Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae data'r sefydliad yn ased gwerthfawr iawn. Yn yr un ffordd ag yr ydym yn storio ein harian mewn banc yn hytrach nag ar safle, dylem storio ein data yn y man mwyaf diogel, cadarn, effeithlon, cost effeithiol a phriodol.
- Nid yw cael nifer fawr o ganolfannau data ar y safle ar draws y sector cyhoeddus yn synhwyrol nac yn gynaliadwy bellach. Bydd symud i systemau cwmwl yn Sir Gaerfyrddin yn caniatáu inni leihau a datgomisiynu llawer o'n seilwaith ffisegol yn y blynyddoedd i ddod.
- Mae systemau cwmwl yn caniatáu mwy o

hyblygrwydd a chyflwyno gwasanaethau newydd yn gyflym mewn modd mwy effeithlon a chynaliadwy gan greu lle i ehangu.

- Bydd yn hwyluso mwy o gydweithio ac yn fodd i rannu data a systemau yn well.
- Bydd yn galluogi staff i weithio yn y manau gorau posibl o nifer o blatfformau amrywiol yn ôl yr angen.
- Rhoi cyfle i fanteisio ar y cynnyrch, y nodweddion a'r gwasanaethau diweddaraf pan fyddant yn cael eu rhyddhau heb yr angen am uwchraddiadau a newidiadau costus sy'n tarfu. "Model bytholwyrdd".

Sut y byddwn yn sicrhau 'Ymagwedd Cwmwl yn Gyntaf'

- Byddwn yn cynllunio ein hymagwedd at gwmwl gan ddisgwyl newid.
- Ym mhob achos o adnewyddu neu fabwysiadu technoleg yn y dyfodol, byddwn yn ystyried defnyddio'r cwmwl yn ddiodyfyn, oni bai bod rhesymau sylweddol a chymhellol dros beidio â gwneud hynny.
- Byddwn yn creu, yn gwerthuso ac yn craffu ar achosion busnes ar gyfer pob cynllun sylweddol i symud i gwmwl er mwyn sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer y sefydliad.



Rhwydwaith Data a Llais



Beth mae'n ei olygu







- Mae ein rhwydweithiau ardal leol ac eang, ffrydiau rhyngwyd, teleffoni a systemau cyfathrebu unedig yn ategu cyfathrebu ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid.
- Mae ein rhwydwaith sydd eisoes yn sylweddol ac yn soffistigedig yn creu'r gallu i gyfathrebu, cydweithio a rhannu data, systemau a gwasanaethau.

Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae cysylltedd rhwydwaith data a llais a mynediad i'r rhyngwyd yn hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion yn yr 21ain ganrif.
- Mae'r galw am ein sianelau cysylltedd rhyngwyd a lled band gan ein gwasanaethau corfforaethol, ysgolion a phartneriaid wedi cynyddu'n gyflym. Rydym yn llawn ddisgwyl i'r galw hwn gynyddu yn y blynnyddoedd i ddod.
- Ein rhwydwaith yw'r sylfaen i bopeth a wnawn o ran technoleg. Heb y rhwydwaith hwnnw, ni fyddai systemau adrannol, ysgolion a phartneriaid yn gweithio.
- Mae eisoes gennym systemau canolog ac adrannol a gwasanaethau yn y Cwmwl. Ein rhwydwaith yw'r cyfrwng sy'n caniatáu inni gael mynediad i'r rheiny, yn awr ac yn y dyfodol.

Sut y byddwn yn sicrhau 'Rhwydweithiau Data a Llais Cadarn'

- Datblygu'n ddeinamig ein technoleg rhwydwaith sydd eisoes yn gymhleth ac yn soffistigedig i sicrhau bod galluedd ein rhwydwaith yn parhau i fod yn addas i'r diben.
- Rhithwiro a chyfnerthu ein systemau llais i wella swyddogaethau a chadernid a sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol.
- Gwellu ein cysylltedd â rhwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) Cymru Gyfan, manteisio ar ei botensial llawn fel sylfaen ar gyfer cydweithio, a defnyddio cydwasanaethau Cwmwl ledled Cymru drwy'r cyfrwng hwnnw.
- Darparu cysylltedd rhyngwyd gwirioneddol gadarn ar gyfer gwasanaethau corfforaethol, ysgolion a phartneriaid.
- Gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a BT i gynyddu lled band yn yr holl ysgolion i100mb o leiaf.

Prosiectau Allweddol	Canlyniadau Allweddol	2018	2019	2020
Adnewyddu Llwybrydd/Switsh Rhwydwaith Craidd.	<ul style="list-style-type: none"> Bydd caledwedd newydd yn darparu cyfleoedd i wella ac ehangu ein galluoedd rhwydwaith ymhellach. 			
Adnewyddu Llwybrydd/Switsh craidd Canolfannau Data.	<ul style="list-style-type: none"> Bydd caledwedd newydd yn darparu cyfleoedd i wella ein Canolfannau Data ymhellach. 			
Ailddylunio trawsnewid PSBA, sy'n cynnwys tua 500 o safleoedd cysylltiedig yn Sir Gaerfyrddin.	<ul style="list-style-type: none"> Caniatáu mwy o gadernid a gwerth ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru. Arbedion effeithlonrwydd sylweddol o ran refeniw fel rhan o drawsnewid PSBA. 			
Rhithwirio Teleffoni (SIP a Mitel).	<ul style="list-style-type: none"> Arbedion sylweddol o ran refeniw a'r gallu i greu cadernid mewn gwasanaethau teleffoni. Newid o systemau ffisegol lluosog i ddwy system rithwir. 			
Defnyddio cysylltedd Wi-Fi Corfforaethol yn fwy mewn 10 o'n hadeiladau mwyaf.	<ul style="list-style-type: none"> Cwmpas Wi-Fi o 100% ar draws adeiladau craidd. Gwella swyddogaethau gan ddarparu profiad llawer mwy di-dor o Wi-Fi. 			
Dysgu yn y Gymru Ddigidol 2.	<ul style="list-style-type: none"> Pob ysgol ar draws y sir i gael mynediad i fand eang cyflym 100mb wedi'i uwchraddio. 			

Gweithle Digidol Modern



Beth mae'n ei olygu

- Grymuso ein gweithlu i fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl yn y man cywir, ar yr adeg gywir yn seiliedig ar yr anghenion o ran darparu gwasanaethau i ddinasyddion.
- Hwyluso Gweithle Gwirioneddol Fodern drwy ddefnyddio gliniaduron, llechi, ffonau clyfar, offer cynhyrchiant a thechnolegau yn effeithlon ac yn briodol.

Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae'r gweithle wedi datblygu'n gyflym o ran yr offer a'r technolegau a ddefnyddir bob dydd ac mae'n parhau i wneud hynny.
- I sicrhau gwelliant parhaus o ran cynhyrchiant gweithle, mae'n rhaid inni ddatblygu a symud gyda'r oes.
- Mae'r dechnoleg a ddefnyddir fynyachaf yn ein swyddfeydd, ystafelloedd dosbarth, cyfarfodydd ac ati, yn gallu hwyluso nodau ac amcanion timau, is-adrannau, adrannau ac yn y pen draw y sefydliad, a dylent wneud hynny.

Sut y byddwn yn sicrhau 'Gweithle Digidol Modern'

- Trawsnewid gallu ein gweithlu i fod yn gynhyrchiol ac i gydweithio fel unigolion, timau ac adrannau drwy fabwysiadu amgylcheddau cynhyrchiol diogel Cwmwl.
- Drwy sicrhau bod dyfeisiau ein defnyddwyr yn cael eu huwchraddio a'u diweddarau o ran caledwedd a meddalwedd, gan roi'r nodweddion a'r swyddogaethau diweddaraf i ddefnyddwyr.
- Defnyddio technolegau sy'n hwyluso ymagwedd wirioneddol hyblyg i weithio, gan alluogi defnyddwyr i gysylltu, cyfathrebu a chyrchu adnoddau o'r man mwyaf priodol mewn perthynas â'u cwsmeriaid a'u gwasanaethau.
- Drwy ganiatáu i ddefnyddwyr ddefnyddio eu dyfeisiau ategol eu hunain (llechi a ffonau clyfar) yn ddiogel ar gyfer gwaith drwy ddarparu cynllun "dod â'ch dyfais eich hun" gwirfoddol.
- Gwella a thrawsnewid arferion traddodiadol yn y gweithle drwy ddefnyddio cysyniadau a thechnolegau megis y Rhyngrwyd Pethau a Roboteg Gyfrifiadurol.

Prosiectau Allweddol	Canlyniadau Allweddol	2018	2019	2020
Microsoft Office 365 (Platfform Cynhyrchiant a Chydweithio).	<ul style="list-style-type: none"> Gwella mynediad i offer cynhyrchiant a chydweithio. Datgomisiynu seilwaith ar y safle sylweddol. 			
Symud i Windows 10.	<ul style="list-style-type: none"> Gwella swyddogaethau ar gyfer defnyddwyr a rheolwyr. Amgylchedd diweddbwynt sy'n ddiogel ac sy'n cydymffurfio. 			
Uwchraddio'r ddarpariaeth o ran mynediad o bell i ddefnyddwyr (Mynediad Uniongyrchol).	<ul style="list-style-type: none"> Profiad o bell di-dor i ddefnyddwyr. Mynediad gwell a dibynadwy i adnoddau o unrhyw le. 			
Cyflwyno dyfeisiau gweithio ystyth.	<ul style="list-style-type: none"> Trawsnewid ein hystad dyfeisiau i 80% gliniaduron, 20% byrddau gwaith. Gweithlu ystyth sy'n gallu gweithio o'r man mwyaf priodol ar yr adeg fwyaf priodol. 			
Darparu cynllun "dod â'ch dyfais eich hun" dewisol ar gyfer llechi a ffonau clyfar personol.	<ul style="list-style-type: none"> Y gallu i ddefnyddio eich ffôn clyfar neu eich llechen eich hun ar gyfer gwaith. Ateb diogel a chynhyrchiol ar gyfer dyfeisiau personol. 			
Cyfathrebu Unedig.	<ul style="list-style-type: none"> Integreiddio gwasanaethau cyfathrebu h.y. Llais, Negeseuon Gwib, Fideo ac ati yn un platfform. 			

Canolfannau Data Diogel a Chadarn



Beth mae'n ei olygu

- Sicrhau bod ein data, ein systemau a'n gwasanaethau yn cael eu lletya yn y man mwyaf priodol ac effeithlon.
- Sicrhau bod ein data, ein systemau a'n gwasanaethau yn cael eu creu a'u rheoli ar y platfformau mwyaf priodol ac effeithlon.

Pam y mae hyn yn bwysig

- Ein Canolfannau Data yw craidd ein busnes, gan eu bod yn dal ein seilwaith, ein data a'n cymwysiadau. Hebddynt, ni fyddai TGCh yn gweithio.
- Mae cynnwys ein canolfannau data o werth sefydliadol uchel iawn o ran asedau ffisegol, data, gwariant blynyddol, perfformiad sefydliadol a darparu gwasanaethau.

Sut y byddwn yn sicrhau 'Canolfannau Data Diogel a Chadarn'

- Byddwn yn ymddwyn yn gyfrifol, yn blaengynllunio a bod yn realistig o ran yr amserlenni sy'n ymwneud â symud systemau Sir Gaerfyrddin i'r cwmwl.






- Byddwn yn ceisio datgomisiynu ein hamgylchedd ar y safle, gan symud i fodel "fel gwasanaeth" ar gyfer seilwaith, platfform a meddalwedd lle bo modd.

- Byddwn yn ceisio rhesymoli ein hól troed ffisegol presennol o 2 Ganolfan Ddata ac 1 safle Adfer mewn Argyfwng i 1 Ganolfan Ddata gydag Adfer mewn Argyfwng, Data Wrth Gefn ac Adfer ar y Cwmwl. Ein nod hirdymor fydd lletya ein prif ganolfan ddata yn y cwmwl hefyd.

- Byddwn yn cyfnerthu gweinyddion, data a chymwysiadau, gan wella perfformiad cyffredinol drwy fabwysiadu'r dulliau storio cyflym diweddaraf, gwneud y defnydd gorau o dechnoleg a'n paratoi ar gyfer symud i'r cwmwl.

- Byddwn yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd drwy fabwysiadu dull storio ar Gwmwl.

- Byddwn yn datgomisiynu'r holl wasanaethau Citrix, a chyflwyno technolegau presennol a rhai newydd yn eu lle sy'n fwy effeithlon ac effeithiol ar gyfer defnyddwyr a Gwasanaethau TGCh.

Key Projects	Key Outcomes	2018	2019	2020
Ehangu a datblygu galluoedd Seiberddiogelwch.	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd digidol mwy cadarn a diogel. • Gwella galluoedd ymateb i achos o fynediad diawdurdod Seibr. 			
Adnewyddu ac uwchraddio ein Rhwydwaith Ardal Storio.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella perfformiad systemau a data. • Amgylchedd storio data cynaliadwy. 			
Adnewyddu ac uwchraddio ein hamgylchedd UNIX.	<ul style="list-style-type: none"> • Cynaliadwyedd sawl system hanfodol i fusnes. 			
Adnewyddu ac uwchraddio ein galluoedd Adfer mewn Argyfwng.	<ul style="list-style-type: none"> • Sefydliad mwy cadarn. • Gwella gallu i ymateb i argyfwng. 			
Symud i Weinydd Windows 2012/16 a'i fabwysiadu.	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd gweinyddion sy'n ddiogel ac sy'n cydymffurfio. • Gwella galluoedd rheoli a pherfformiad. 			
Mabwysiadu proses hidlo cynnwys y we ar gwmwl.	<ul style="list-style-type: none"> • System hidlo fwy cadarn sy'n defnyddio llai o adnoddau. • Cynnydd yn y lled band sydd ar gael ar gyfer ysgolion a gwasanaethau corfforaethol. 		